

CYFARFOD	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
DYDDIAD	29 Tachwedd 2016
TEITL	Ysgolion gyda gwarged balansau
PWRPAS	Amlinellu ysgolion gyda gwarged balansau ar gais y Fforwm
ARGYMHELLIAD	Ystyried yr adroddiad
AWDUR	Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
AELOD CABINET DROS ADDYSG	Y Cynghorydd Gareth Thomas

1 Cefndir

1.1 Amgaeaf atodiad sy'n amlygu patrwm gwarged balansau dros y cyfnod tair blynedd diwethaf, yn unol â chais gan y Fforwm Cyllid Ysgolion yn ei gyfarfod 4 Gorffennaf 2016, ymhellach i'r cofnod isod

“5 (ii) Gofyn i'r Rheolwr Cyllid gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Fforwm yn amlinellu:

(b)amlygu'r ysgolion unigol hynny sydd gyda gwarged o'u balansau.”

1.2 Ers cychwyn cyfundrefn 'Rheolaeth Leol Ysgolion' yn ôl yn 1988, yr arweiniad cyffredinol yw byddai cadw gwarged o hyd at 5% yn dderbyniol gan amlaf. Felly sefydlwyd yr atodiad ar sail ysgolion oedd gyda gwarged o dros 5% ar ddiwedd unrhyw un o'r cyfnodau.

1.3 Er hynny, os yw ysgol wedi cynllunio yn fwriadol ar gyfer buddsoddiad ariannol sydd i ddigwydd yn y dyfodol agos, byddai cadw gwarged o dros 5% yn dderbyniol dan yr amgylchiadau hynny yn y tymor byr.

2. Prif Bwyntiau'r Atodiad

2.1 Cyfanswm nifer ysgolion gyda gwarged dros 5% wedi lleihau

2.2 Cyfanswm ariannol yr elfen gwarged dros 5% wedi cynyddu

2.3 87 Ysgol wedi bod gyda gwarged dros 5% ar ryw bwynt yn ystod y cyfnod

2.4 50 Ysgol wedi bod gyda gwarged dros 5% ar ddiwedd pob blwyddyn o'r cyfnod (wedi'i amlygu'n felyn).